Sant Teilo: bed ganrif

Y ceirw'n cario'r coed tân

Tynerwch / ffyddlondeb

Yn y llyfr hwn fe ddowch ar draws hanes Sant Ffransis. Ef oedd sant yr anifeiliaid. Mae yna lawer o hanesion am seintiau ac anifeiliaid. Dyma i chi stori am sant o Gymru a'r ddau garw.

Roedd Teilo wedi bod yn eistedd yn y berllan. Roedd ar ei ffordd i'r fynachlog pan ddaeth un o'r mynaich eraill ato a dweud, "Does yna ddim digon o goed tân yn y gegin. Felly, fydd yna ddim tanwydd ar gyfer coginio brecwast bore fory. Tybed fedri di fynd i dorri coed i'r goedwig?"

Trodd Teilo ar ei sawdl y munud hwnnw a mynd yn fân ac fuan tua'r goedwig. Dilynodd dau fynach arall ef i'w helpu i dorri'r coed. Ar ôl iddyn nhw gyrraedd y goedwig gwelsant ddau garw yn cerdded yn urddasol o gwmpas. Dechreuodd Teilo a'i ffrindiau dorri coed i'w cario'n ôl i'r fynachlog.

Daeth y ddau garw atynt a dechrau prancio o gwmpas. Dyma un o'r ceirw yn dechrau torri brigau oddi ar y coed efo'i gyrn. A dyma'r llall yn gwneud yr un peth. Ymhen rhai munudau, roedd llwyth o goed tân yn barod.

"Wel," meddai Teilo, "fedra i ddim cario'r llwyth yma, mae o'n rhy drwm o lawer."

"Mi fydd rhaid i ni gario'r coed fesul tipyn," meddai un o'r mynaich eraill.

Pan oedd y mynaich yn dechrau codi'r brigau fesul un, dyma'r ddau garw yn codi gweddill y brigau ar eu cyrn a cherdded o gwmpas y goedwig.

"Wn i beth wnawn ni," meddai Teilo, "mi gerdda i o'u blaenau nhw i gyfeiriad y fynachlog. Gobeithio y byddan nhw'n fy nilyn i tua'r fynachlog."

Ac felly y bu. Y mynaich ar y blaen a'r ddau garw'n cario'r coed tân ar eu cyrn. Fuon nhw fawr o dro cyn cyrraedd porth y fynachlog. Daeth y mynaich eraill at y drws i weld beth oedd yn digwydd.

"Dyma olygfa ddigri," meddai un o'r mynaich.

"Gweld mynaich diog ydw i," meddai un arall.

"Mi fyddwn ni'n sicr o gael brecwast i'w gofio," meddai un arall o'r mynaich.

Rhedodd un o'r mynaich i'r gegin i ddweud wrth y lleill bod y tanwydd wedi cyrraedd.

"Mae'r tanwydd wedi cyrraedd ar gyrn dau garw," meddai â llais uchel.

Doedd y cogyddion ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd. Daeth y cogyddion allan at borth y fynachlog i weld yr olygfa ryfedd hon. Plygodd y ceirw a dechreuodd y mynaich dynnu'r brigau fesul un a'u cario i'r gegin, yn danwydd ar gyfer y bore. Diolchodd Teilo i'r ddau garw am eu helpu. Pranciodd y ddau garw cyn llamu'n ôl i gyfeiriad y goedwig.

Byth er hynny, pan fyddai'r mynaich angen coed tân, byddai Teilo yn mynd draw i'r goedwig i chwilio am y ddau garw. Ac yn ddi-feth, byddai'r ceirw yn cario'r coed tân i borth y fynachlog. Fel rhodd iddyn nhw, byddai Teilo'n mynd â sachaid o wenith efo fo. Roedd Teilo a'r ceirw wedi dod yn ffrindiau agos iawn.

"Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; yn dyner eich calon..."

Effesiaid 4:32

Helpa fi, O Dduw,
i fod yn ffrind i bawb.
Amen.

Beth ydi ystyr bod yn dyner tuag at bobl eraill?

Sant Teilo: 6ed ganrif